Department for Environment Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar y Strategaeth Bioddiogelwch Iechyd Planhigion: Adroddiad technegol

Ebrill 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy’n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi’n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i’r genhedlaeth nesaf, a’i gadael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni’r amgylchedd ynddo.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Forestry Commission

OGL

© Hawlfraint Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu  hanfon aton ni yn plantbiosecuritystrategy@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

# Cynnwys


Rhagymadrodd .....4

Trosolwg o’r ymatebion .....4

Demograffeg .....5

Y weledigaeth ar gyfer iechyd planhigion yn y dyfodol .....7

Canlyniad 1: Trefn bioddiogelwch o’r radd flaenaf .....9

Canlyniad 2: Cymdeithas sy’n gwerthfawrogi planhigion iach .....20

Canlyniad 3: Cadwyn cyflenwi planhigion bioddiogel .....25

Canlyniad 4: Gallu technegol gwell .....32

Mesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer coed risg uchel .....36

# Rhagymadrodd

Cafodd yr adroddiad technegol hwn ei baratoi gan ddadansoddwyr yn Fera a Defra ac mae'n cyflwyno disgrifiad o'r ymatebion i Ymgynghoriad Strategaeth Bioddiogelwch Iechyd Planhigion Defra (2021). Gellir gweld testun llawn y ddogfen ymgynghori wreiddiol yn: Ymgynghoriad Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan Defra a llywodraethau Cymru a'r Alban i lywio dull Prydain Fawr o ymdrin â bioddiogelwch planhigion dros y pum mlynedd nesaf. Cafwyd ymatebion gan sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd sydd â buddiannau mewn iechyd planhigion a chyfrifoldeb tuag ato. Gellir grwpio canlyniadau allweddol y strategaeth yn bedwar maes pwnc allweddol:

### Canlyniad 1: Trefn bioddiogelwch o'r radd flaenaf

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i deilwra a chryfhau ein hymateb i atal a rheoli plâu a phathogenau sy'n fygythiad i iechyd planhigion Prydain rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.

### Canlyniad 2: Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd planhigion a choed iach ac annog pobl i fabwysiadu ymddygiad cyfrifol ar draws cymdeithas.

### Canlyniad 3: Cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel

Y Llywodraeth a diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel.

### Canlyniad 4: Gallu technegol well

Meithrin galluogrwydd ar sail iechyd planhigion a defnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol a datblygol i ddal i fyny â bygythiadau sy'n newid a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Ar ben hynny, cynhwyswyd atodiad dewisol yn yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fesurau arfaethedig ychwanegol ar gyfer rhywogaethau coed sy'n wynebu risg uchel.

# Trosolwg o'r ymatebion

Cofnodwyd cyfanswm o 144 o ymatebion ar borth yr arolwg neu drwy ddogfennau a ddarparwyd mewn fformatau eraill. Cafwyd 125 o ymatebion i'r Atodiad dewisol ynghylch rhywogaethau coed sy'n wynebu risg uchel. Lle bo'n briodol, cyflwynir yr ymatebion fel cyfran o'r sampl lawn, ond dim ond i is-set o ymatebwyr yr oedd rhai cwestiynau yn yr

ymgynghoriad yn berthnasol. Yn yr achosion hyn, rhoddir maint y sampl ochr yn ochr â'r data. Mae'n bwysig nodi bod y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn dod o set o gyfranogwyr ymroddedig ac nid cyfranogwyr ar hap, ac efallai nad ydynt yn adlewyrchu'r sbectrwm cyflawn o randdeiliaid ym maes iechyd planhigion.

Dewisodd chwe sefydliad (y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Gerddi Botaneg Brenhinol Kew, Ffermwyr a Thyfwyr Organig, UK Research and Innovation, a Coed Cadw) ymateb i'r ymgynghoriad y tu allan i'r porth a'r fformat gwe y gofynnwyd amdanynt. Er mwyn cymharu, mae'r ymatebion hyn wedi'u trosi (lle bo modd) yn gofnod safonol at ddibenion dadansoddi meintiol ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.


### Ymgyrch eiriolaeth Coed Cadw

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cynhaliodd Coed Cadw ymgyrch eiriolaeth yn annog aelodau a chysylltiadau i roi ymateb safonol i rai o'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad. Daeth cyfanswm o 1,047 o ymatebion i law yn union yr un fath o ganlyniad i'r ymgyrch hon. Er mwyn osgoi rhagfarnu'r sampl, ac am nad oedd y cwestiynau a ddewiswyd yn cynnwys unrhyw ymatebion meintiol fel y'u cyflwynir isod, nid yw'r ymatebion hyn wedi'u mapio i gwestiynau penodol.

# Demograffeg

**Ffigur 1: O ba ranbarth daearyddol ydych chi?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 1 yn siart sy'n dangos y wlad sy'n gysylltiedig â’r ymatebwyr: 111 o Loegr, 13 o'r Alban, 9 o Gymru, 1 o Ogledd Iwerddon, 10 'arall'

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (77 y cant) eu bod yn dod o Loegr. O'r ymatebwyr hynny a restrodd eu hunain fel 'Arall', roedd naw yn cynrychioli sefydliadau a oedd yn rhychwantu’r Deyrnas Unedig.

**Ffigur 2: Dywedwch wrthym pa un o’r opsiynau canlynol sy’n disgrifio’ch diddordeb mewn iechyd planhigion orau?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 2 yn siart sy'n dangos rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Aelodau o'r cyhoedd oedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr (48 o ymatebwyr), ac wedyn cyrff ymchwil (19 o ymatebwyr) a chyrff proffesiynol (17 ymatebwyr). Roedd gan sampl y diwydiant ('masnach') y mwyafrif o ymatebion gan dyfwyr (10 ymatebydd yn dweud eu bod yn gwerthu i’r fasnach, a 7 arall yn dweud eu bod yn gwerthu i'r cyhoedd).

Ar gyfer yr holl ddadansoddiadau sy’n dilyn, mae’r ymatebwyr wedi'u grwpio i'r categorïau bras a ganlyn: y cyhoedd (48 o ymatebwyr), tirfeddiannwr neu reolwr (13 ymatebydd), cyrff anllywodraethol (NGOs)/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill (40 o ymatebwyr), ymchwil ac addysg (23 o ymatebwyr), a masnach (20 o ymatebwyr).

# Y weledigaeth ar gyfer iechyd planhigion yn y dyfodol

**Sut gall y Llywodraeth, diwydiant a’r cyhoedd weithio’n fwy effeithiol â’i gilydd i warchod planhigion Prydain?**

Rhoddodd yr ymatebwyr ymateb testun rhydd o hyd at 250 o eiriau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y pynciau a ganlyn:


- Addysg, ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cyhoeddus
- Cydweithio mwy effeithiol â rhanddeiliaid allanol
- Rhwystrau i fasnach, gan gynnwys rheoleiddio, Brexit a datganoli
- Cyfyngiadau ar fewnforion/cynyddu cynhyrchiant domestig
- Cynyddu adnoddau a staff bioddiogelwch
- Newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a gwydnwch
- Cynlluniau labelu a sicrwydd
- Ymchwil a sganio'r gorwel
- Golygu genynnau a thriniaethau cemegol

**Pa un o’r materion canlynol ydych chi’n meddwl sy’n peri’r risg fwyaf i iechyd planhigion?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr osod y dewisiadau yn eu trefn, o risg uchel i risg isel.

**Ffigur 1: Pa un o'r materion canlynol ydych chi'n meddwl sy'n peri'r risg fwyaf i iechyd planhigion?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 3 yn siart sy'n dangos graddfa'r risgiau tybiedig i iechyd planhigion, wedi'i seilio ar sut roedd yr ymatebwyr yn graddio'r ddwy brif risg.

Symud deunydd mewn masnach, a restrwyd gan dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr ymhlith eu dau bryder mwyaf, oedd y risg dybiedig fwyaf i iechyd planhigion yn y Deyrnas Unedig. Newid yn yr hinsawdd oedd yr ail risg dybiedig fwyaf, gyda'r risgiau eraill, gan gynnwys diffyg cymhelliant, mewnforio deunydd yn bersonol, diffyg ymwybyddiaeth o risgiau a diffyg gwybodaeth am arferion yn cyrraedd tua'r un lefelau o ymatebion.

**Tabl 1: Y risgiau tybiedig mwyaf fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Risg | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Mewnforion masnach** | 62 | 85 | 70 | 74 | 55 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd** | 29 | 15 | 28 | 39 | 45 |
| **Diffyg cymhelliant i sefydliadau ac unigolion fabwysiadu ymddygiad ac arferion bioddiogel** | 25 | 23 | 30 | 26 | 25 |
| **Mewnforion personol e.e. mewn bagiau teithwyr** | 23 | 31 | 22 | 13 | 40 |
| **Dim digon o ymwybyddiaeth o blâu a chlefydau planhigion** | 23 | 38 | 20 | 17 | 30 |
| **Ychydig iawn o wybodaeth am arferion bioddiogelwch da** | 35 | 8 | 25 | 17 | 5 |

Mae Tabl 1 yn dangos graddau'r risgiau tybiedig yn seiliedig ar nifer yr ymatebwyr a osododd y dewisiadau yn y ddwy brif risg ac wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

O'u hystyried fesul grŵp bras, roedd mewnforion masnach yn gyson yn cael eu gosod fel y risg fwyaf ar draws pob grŵp, er bod yr ymatebwyr yn y fasnach yn debycach o enwi mewnforion personol a newid yn yr hinsawdd fel risgiau allweddol. Dywedodd aelodau o'r cyhoedd fod diffyg gwybodaeth am arferion bioddiogelwch da yn bwysicach nag ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion, sef tuedd sy'n groes i'r hyn a welwyd yn y fasnach ac ymhlith tirfeddianwyr.

# Canlyniad 1: Trefn bioddiogelwch o’r radd flaenaf

Mae’r ymatebion testun rhydd ar gyfer y canlyniad hwn yn cynnwys nifer o alwadau am gynnydd mewn mesurau gorfodol, megis cyfnodau cwarantin hirach neu wahardd mewnforion penodol, a chosbau llymach (yn enwedig ymysg aelodau o'r cyhoedd a chyrff anllywodraethol amgylcheddol). Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at faich y gwaith

cydymffurfio ac achredu, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gystadleurwydd, a hynny ymysg busnesau mwy mewn marchnadoedd tramor, yn ogystal ag SMEs a mentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr, sy'n wynebu heriau penodol o fewn y sector:


*"Beth yw hyd a lled y fasnach anfasnachol mewn planhigion at ddibenion cadwraeth (e.e., Treftadaeth Planhigion, Gerddi Botaneg Academaidd, Mudiadau Cadwraeth), a sut mae modd cefnogi hyn fel y gellir cymell y gweithlu, sy'n wirfoddol i raddau helaeth, i gymryd rhan mewn bioddiogelwch da heb gosb ariannol?"*

"*Parhau i hwyluso'r broses gyfreithiol o symud deunydd planhigion, gyda rhagofalon iechyd planhigion cywir – er enghraifft, drwy wneud y ffioedd archwilio ac ardystio yn debyg i'r rhai mewn gwledydd eraill*".

Ymateb cymysg a gafodd mesurau gwirfoddol, gyda nifer fach yn unig o'r ymatebwyr yn y fasnach yn eu rhestru eu hunain fel aelodau o wahanol gynlluniau achredu/sicrwydd o dan arweiniad y diwydiant (gweler Canlyniad 3), a nododd amryw o'r sylwadau gostau cyfranogi. Teimlai llawer o'r ymatebwyr hefyd na fyddai eu trefniadau bioddiogelwch dewisol, yn enwedig mewn perthynas ag archwilio a gorfodi, yn bosibl gyda maint presennol yr arolygiaeth.

**Ffigur 4: Ble rydych chi/eich busnes yn cael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion ar hyn o bryd?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 4 yn siart sy'n dangos ble mae ymatebwyr yn cael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion.

Chwilio ar y rhyngrwyd oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o gael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion (66 y cant) ac wedyn gwybodaeth gan sefydliadau yn y sector iechyd planhigion (57 y cant). Nododd rhyw 4 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt yn chwilio am wybodaeth am blâu a phathogenau planhigion.

**Tabl 2: Ble rydych chi/eich busnes yn cael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion ar hyn o bryd? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Ffynhonnell wybodaeth | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Chwilio ar y we fy hun** | 60 | 62 | 70 | 70 | 70 |
| **Gwybodaeth gan sefydliadau yn y sector iechyd planhigion e.e. e-bost neu gylchlythyr gan gorff masnach, bwrdd ardollau, sefydliad proffesiynol, elusen, Corff Anllywodraethol, ac ati** | 44 | 54 | 65 | 57 | 75 |
| **Cyfryngau'r diwydiant e.e. newyddion arbenigol ar-lein** | 17 | 31 | 70 | 30 | 70 |
| **Gwefannau'r llywodraeth** | 12 | 46 | 58 | 39 | 60 |
| **Cyfryngau cyffredinol e.e. papurau newydd cenedlaethol neu ranbarthol a newyddion ar-lein** | 54 | 31 | 32 | 22 | 40 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dibynnu ar gyngor arbenigol e.e. gan agronomegydd neu archwilydd iechyd planhigion** | 2 | 15 | 42 | 35 | 65 |
| **Y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion** | 4 | 15 | 42 | 35 | 55 |
| **Dydw i ddim yn chwilio am wybodaeth am blâu a phathogenau planhigion** | 8 | - | 5 | - | - |
| **Dim un o'r uchod** | - | - | 3 | 4 | - |

Mae Tabl 2 yn dangos ble mae'r ymatebwyr yn cael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr mewn iechyd planhigion.

Yn gyffredinol, nododd yr ymatebwyr mai ffynonellau ar-lein oedd eu ffynhonnell wybodaeth allweddol, gyda lleiafrif bach yn unig (4 y cant) yn dweud na fyddent yn chwilio am unrhyw wybodaeth am blâu a phathogenau planhigion.

**Ffigur 5: Pa wybodaeth am iechyd planhigion a bioddiogelwch ydych chi/eich busnes ei hangen gan y llywodraeth?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 5 yn siart sy'n dangos pa wybodaeth am iechyd planhigion a bioddiogelwch yr hoffai'r ymatebwyr ei chael gan y llywodraeth.

Hoeliodd yr ymatebwyr sylw ar yr angen am wybodaeth glir, hygyrch a chryno gan y llywodraeth. Soniodd nifer o ymatebwyr am y Porth Gwybodaeth Iechyd Planhigion a'r Gofrestr Risg Iechyd Planhigion yn ôl eu henw, yn ogystal â sefydliadau fel Forest Research, y Comisiwn Coedwigaeth, Forestry Scotland, RHS, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yn ychwanegol, dadleuai sawl ymatebydd y dylid targedu ymdrechion o fewn addysg i gynyddu ymwybyddiaeth o blâu a chlefydau planhigion yn fwy cyffredinol, o oedran ysgol ymlaen neu well hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

**Tabl 3: Pa wybodaeth am iechyd planhigion a bioddiogelwch ydych chi/eich busnes ei hangen gan y llywodraeth? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Ffynhonnell wybodaeth | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth am blâu sy'n dod i'r amlwg yn y DU** | 85 | 92 | 82 | 74 | 80 |
| **Gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd yn erbyn plâu penodol** | 71 | 77 | 78 | 52 | 85 |
| **Gwybodaeth am arferion bioddiogelwch da** | 56 | 85 | 70 | 48 | 75 |
| **Gwybodaeth am sut i roi gwybod am blâu a phathogenau hysbysadwy** | 67 | 69 | 70 | 35 | 55 |
| **Gwybodaeth gefndir am ddeddfwriaeth newydd a pham ei bod wedi'i chyflwyno** | 25 | 38 | 70 | 43 | 85 |
| **Gwybodaeth am blâu sy'n dod i'r amlwg ledled y byd** | 44 | 46 | 65 | 43 | 45 |
| **Canllawiau wedi'u diweddaru ar y gofynion ar gyfer mewnforion ac allforion** | 23 | 23 | 70 | 26 | 75 |
| **Arall (opsiwn testun rhydd)** | 6 | 23 | 18 | 13 | 15 |
| **Ddim yn berthnasol** | 4 | - | 5 | 9 | - |

Mae Tabl 3 yn dangos pa wybodaeth am iechyd planhigion a bioddiogelwch yr hoffai'r ymatebwyr ei chael gan y llywodraeth wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Tynnwyd sylw at yr angen am ffynonellau cyfunol, yn enwedig o fewn y fasnach ac i'w defnyddio gan y cyhoedd, ynghyd â'r angen am fwy o ganllawiau a symleiddio'r broses ar gyfer adnabod a rhoi gwybod am blâu hysbysadwy a phryderon ynghylch materion sy'n codi mewn gwledydd cyfagos yn Ewrop.

**Ffigur 6: Ydych chi/eich busnes yn teimlo bod gennych chi'r wybodaeth gywir ar hyn o bryd i ddewis cyflenwyr a fydd yn darparu stoc bioddiogel?**

*Maint y sampl: 144*





Mae Ffigur 6 yn siart sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n teimlo bod ganddynt yr wybodaeth gywir i ddewis cyflenwyr a fydd yn cyflenwi stoc bioddiogel.

Teimlai mwy nag un rhan o dair o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddewis cyflenwyr stoc bioddiogel yn ddibynadwy, ond dywedodd 40 y cant o'r ymatebwyr nad oedd y cwestiwn yn berthnasol neu beidio ag ateb.

Pan ofynnwyd am eu pryderon ynghylch dewis cyflenwyr bioddiogel, tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at hygyrchedd cymharol gwybodaeth a gofyn am ehangu cynlluniau achredu neu farcwyr swyddogol eraill mewn modd tryloyw i ategu nodau bioddiogelwch (yn enwedig o ran adnabod ac olrhain stoc wedi'i mewnforio). Roedd gwybodaeth am blâu a oedd yn dod i'r amlwg yn faes diddordeb penodol. Gwnaed cymariaethau â'r 'nodau barcud' a ddefnyddir i ardystio yn y sector bwyd yn aml, ynghyd â chydnabod bod angen i'r atebion ddarparu ar gyfer baich y gwaith cydymffurfio, yn enwedig i fusnesau bach ac unigolion. Un o'r bylchau allweddol a nodwyd gan nifer o ymatebwyr oedd yr amwysedd sy'n gysylltiedig â'r diffiniad o blanhigyn sydd wedi'i dyfu yn y Deyrnas Unedig, a beth yw'r cysylltiad rhwng hyn a deunydd wedi'i fewnforio ac wedi'i ail-botio (yn enwedig pan fo labeli o'r fath wedi'u cyfeirio at y cyhoedd).

**Ffigur 7: A fyddech chi'n fodlon ymgysylltu ag eraill i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu bioddiogelwch y DU yn well?**

*Maint y sampl: 144*




Mae Ffigur 7 yn siart sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n fodlon ymwneud ag eraill i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu bioddiogelwch y Deyrnas Unedig yn well.

Nododd rhyw ddwy ran o dair o'r ymatebwyr barodrwydd i ymwneud â rhwydweithiau rhannu gwybodaeth cydweithredol, gyda chyfran ychydig yn is yn barod i ymwneud â chyfeirio a throsglwyddo gwybodaeth.

**Tabl 4: A fyddech chi'n fodlon ymgysylltu ag eraill i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu bioddiogelwch y DU yn well? Fesul grwp bras**

| Dull rhannu | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Byddwn yn fodlon cymryd rhan mewn rhwydwaith o unigolion/sefydliada** | 46 | 69 | 80 | 74 | 75 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **u sy'n rhannu gwybodaeth** | | | | | |
| **Byddwn yn fodlon tynnu sylw pobl eraill at wybodaeth pan fyddaf yn dod yn ymwybodol ohoni** | 60 | 54 | 70 | 57 | 60 |
| **Byddwn yn fodlon rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill** | 29 | 54 | 68 | 52 | 75 |

Mae Tabl 4 yn dangos cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n fodlon ymwneud ag eraill i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu bioddiogelwch y Deyrnas Unedig yn well wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Mae'r parodrwydd i ymwneud ag eraill ar ei gryfaf o fewn y fasnach a chyrff anllywodraethol/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill, ac ar ei wannaf ymhlith y cyhoedd, yn enwedig parodrwydd i drosglwyddo gwybodaeth.

**Ffigur 8: Pa mor bwysig yw bioddiogelwch fel ystyriaeth pan fyddwch chi'n penderfynu dod â mewnforion personol o blanhigion a chynnyrch planhigion i Brydain?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 8 yn siart sy'n dangos pa mor bwysig yw ystyried bioddiogelwch mewn perthynas â mewnforion personol, ym marn yr ymatebwyr.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod bioddiogelwch yn 'bwysig iawn' wrth fewnforio deunydd planhigion yn bersonol. Dim ond 6 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oedd bioddiogelwch yn ystyriaeth mewn mewnforion personol.

Cytunai llawer o'r ymatebwyr mai isel oedd yr ymwybyddiaeth gyffredinol o bryderon ynglŷn â bioddiogelwch planhigion ac y byddai ymgysylltu â'r cyhoedd ar y pwnc yn cynyddu cydymffurfiaeth ac ymddygiad cadarnhaol:

*"Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn arwain at wybodaeth addysgol a gall pobl wneud penderfyniadau gwybodus wrth brynu planhigion, neu wrth gymryd risg i fewnforio planhigion o ffynonellau annibynadwy".*

Thema gysylltiedig oedd pryder ynghylch gweithredoedd defnyddwyr unigol, megis plannu hadau a brynwyd gan werthwyr trydydd parti ar y rhyngrwyd a’r rheiny wedi'u camlabelu er mwyn osgoi gwiriadau bioddiogelwch:


*“Dylen ni dynhau'r rheolau ar fewnforio cynhyrchion planhigion sy’n cael eu prynu gan unigolion drwy gyfrwng y rhyngrwyd”.*

Er hynny, rhoddodd lleiafrif y cyfrifoldeb yn ôl ar y llywodraeth a’r diwydiant:

*"Rwy'n credu ei bod yn beryglus ac yn dwp disgwyl i'r cyhoedd fynd ati i osgoi cyflenwyr amheus. Mae'n hanfodol bod pob planhigyn sydd ar werth i ddefnyddwyr Prydain naill ai i'w prynu'n gorfforol neu ar-lein yn cydymffurfio â'r safonau bioddiogelwch uchaf".*

**Ffigur 9: Cyn i chi fewnforio planhigion neu gynnyrch planhigion drwy'r post neu yn eich bagiau personol i Brydain, ble fyddech chi'n chwilio am wybodaeth ynghylch y gofynion a chyfyngiadau mewnforio?**

*Maint y sampl = 144*





Mae Ffigur 9 yn siart sy'n dangos ble byddai'r ymatebwyr yn chwilio am wybodaeth am ofynion a chyfyngiadau mewnforio cyn iddyn nhw fewnforio cynhyrchion planhigion neu blanhigion drwy'r post.

Dewisodd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (47 y cant) 'Gov.uk' fel man lle byddent yn chwilio am wybodaeth am fewnforion personol, ac yna'r Porth Iechyd Planhigion (27 y cant). O'r 18 y cant o ymatebwyr a ddywedodd na fyddent yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â mewnforion personol, dywedodd 12 yn glir na fyddent/nad ydynt yn mewnforio planhigion mewn bagiau personol. Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth gweithwyr proffesiynol wrth fewnforion neu'n gosod y pwyslais ar werthwyr.

# Canlyniad 2: Cymdeithas sy’n gwerthfawrogi planhigion iach

**Ffigur 10: A ydych chi’n cefnogi’r bwriad i annog cymdeithas i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o helpu i ddiogelu iechyd planhigion?**

*Maint y sampl = 144*





*** nid yw’r rhifau yn adio i 100 oherwydd talgrynnu*

Mae Ffigur 10 yn siart sy'n dangos a yw’r ymatebwyr yn cefnogi'r bwriad i annog cymdeithas i chwarae rhan fwy gweithredol wrth helpu i ddiogelu iechyd planhigion.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (93 y cant) yn cefnogi'r bwriad i annog y gymdeithas i chwarae rhan fwy gweithredol mewn iechyd planhigion. Tynnodd ymatebwyr sylw at fanteision cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â’r cyhoedd, o ran lleihau digwyddiadau unigol sy’n creu effaith ar fioddiogelwch, ond hefyd wrth lywio’r pethau y mae defnyddwyr yn eu prynu ac agweddau ehangach y rhanddeiliaid. Roedd sylwadau’r ymatebwyr yn rhagdybio y byddai cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn cyfateb i’r cynnydd mewn ymgysylltu. Dangosodd sylwadau gan y rhai a oedd yn anghytuno fod hyn o bwys bach o'i gymharu â sbardunau eraill fel gweithredoedd y llywodraeth a'r diwydiant, y polisi masnach a newid yn yr hinsawdd.

**Ffigur 11: Er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r risgiau i iechyd planhigion ac annog pobl i weithredu’n gyfrifol, yn eich barn chi beth fyddai’r neges fwyaf effeithiol y gellid ei defnyddio mewn ymgyrch hyrwyddo?**

*Maint y sampl = 144*





Mae Ffigur 11 yn siart sy'n dangos beth yw'r neges fwyaf effeithiol, ym marn yr ymatebwyr, i'w defnyddio mewn ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd planhigion ac annog pobl i weithredu'n gyfrifol.

At ei gilydd, bernid mai negeseuon ynglŷn â bygythiadau i iechyd planhigion oedd yn fwyaf effeithiol, ac wedyn tynnu sylw at ymddygiad a fyddai’n peri risg.

**Ffigur 12: Pryd fyddai negeseuon ar y ffordd orau o ddiogelu iechyd planhigion yn cael yr effaith fwyaf?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 12 yn siart sy'n dangos pa bryd, ym marn yr ymatebwyr, y byddai negeseuon i ddiogelu iechyd planhigion yn cael yr effaith fwyaf.


Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr (44 y cant) yn ffafrio negeseuon adeg prynu planhigion, ac wedyn negeseuon wedi'u targedu wrth i bobl ymadael â'r Deyrnas Unedig neu ddychwelyd iddi (23 y cant).

Cynhwysodd llawer o'r ymatebwyr sylwadau yn nodi y byddai'n well cael strategaeth gymysg gan gynnwys yr holl opsiynau a restrwyd (o bosibl yn amrywio yn ôl y pla penodol). Roedd lleoliadau allweddol eraill a nodwyd ar gyfer negeseuon yn cynnwys yr amgylchedd ar-lein, gyda gwefannau fel eBay yn cael eu hamlygu'n benodol. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith bod rhaid i'r neges gael ei rhoi cyn i ddeunydd risg uchel gael ei brynu er mwyn bod yn effeithiol, gan ofyn am welliannau ehangach o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioddiogelwch. Tynnwyd sylw hefyd at roi amlygrwydd cyson i negeseuon, yn enwedig ar y ffin.

Pan gawsant gyfle i roi rhagor o fanylion am y pwynt hwn, tynnodd y mwyafrif o'r ymatebwyr sylw at bwysigrwydd yr holl opsiynau a gyflwynwyd, gan gynnwys addysg ehangach am fioddiogelwch, gwybodaeth yn y man gwerthu (boed yn bersonol neu ar-lein) a'r cydadwaith â strategaethau eraill megis archwilio. Yn yr un modd, ystyriodd rhai ymatebwyr negeseuon y tu hwnt i ddefnyddwyr, megis negeseuon ynglŷn a chynlluniau datblygu a phlannu.

**Ffigur 13: Pa adnoddau dysgu fyddai'n cael yr effaith fwyaf o ran meithrin eich gwybodaeth chi neu wybodaeth eich sefydliad am fioddiogelwch planhigion?**

*Maint y sampl = 144*





Mae Ffigur 13 yn siart sy'n dangos pa adnoddau dysgu y mae'r ymatebwyr yn teimlo y bydden nhw'n creu'r effaith fwyaf o ran meithrin gwybodaeth am fioddiogelwch planhigion.

Dywedwyd mai hyfforddiant anffurfiol oedd yr adnodd dysgu pwysicaf (42 y cant), ac wedyn cyswllt wyneb yn wyneb ag arolygwyr (22 y cant). Yn gyffredinol, ychydig iawn o awydd oedd yna am gymwysterau ffurfiol ymhlith yr ymatebwyr, gyda'r mwyafrif o sylwadau perthnasol yn canolbwyntio ar ddulliau ar gyfer ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd.

**Ffigur 14 Sut gallwn ni wella cyfraniadau cadarnhaol gwyddoniaeth i ddinasyddion ar iechyd planhigion?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 14 yn siart sy'n dangos sut mae'r ymatebwyr yn teimlo y gallwn wella cyfraniadau cadarnhaol gwyddoniaeth i ddinasyddion ar iechyd planhigion.

Roedd y drafodaeth ar gyfraniadau gwyddoniaeth dinasyddion yn cyd-fynd â thema ehangach ymgysylltu y tu allan i ofod y rhanddeiliaid presennol. Roedd aelodau o'r cyhoedd o blaid y syniad o wyddoniaeth dinasyddion fel arf ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd (ond heb ddangos diddordeb mawr mewn mynediad at y data wedyn). Ar y llaw arall, roedd y tirfeddianwyr yn canolbwyntio'n fwy ar agweddau ymarferol defnyddio data o waith gwyddoniaeth dinasyddion i ategu ymyriadau ac i hwyluso prosiectau fel Observatree. Tynnodd sawl un sylw hefyd at y potensial ar gyfer datblygu cronfeydd data ar sail gwyddoniaeth dinasyddion fel dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ymatebion e.e.,

"*Cronfa ddata yn perthyn i'r llywodraeth lle gall tyfwyr ychwanegu enw planhigyn/ coeden/cnwd a nodi a oedd yna arwyddion o halogiad ynteu a oedd yn iach. Byddai hyn yn darparu cronfa ddata o wybodaeth ond gallai hefyd annog mwy o leoedd i gadw at bolisïau cwarantin*".


# Canlyniad 3: Cadwyn cyflenwi planhigion bioddiogel

**Nodyn cyffredinol ar ddehongli**

Oherwydd natur y gadwyn cyflenwi planhigion, bernid nad oedd y ddau gwestiwn cyntaf yn yr adran hon yn gymwys i raddau helaeth i ymatebwyr y tu allan i'r fasnach ac fe'u cyflwynir yn unol â hynny.

**Ffigur 15: Ydych chi'n perthyn yn barod i gynllun gwarantu sy'n mynnu safonau gan y rheini sy'n dymuno ymuno?**

*Maint y sampl = 17*





Mae Ffigur 15 yn siart sy'n nodi nifer yr ymatebwyr sy'n perthyn i gynllun sicrwydd iechyd planhigion.

Dim ond 17 o ymatebwyr a oedd yn dod o sectorau o'r fasnach a fyddai'n gymwys i fod yn aelodau o'r cynlluniau sicrwydd a restrwyd. O'r rhain, dim ond 4 o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn aelodau o'r cynlluniau a restrwyd. O gofio nifer fach yr ymatebion dan sylw, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r nifer sy'n manteisio ar y cynlluniau yn fwy cyffredinol.

**Ffigur 16: Os ydych chi’n gyflenwr, pa fanteision y mae angen i gynlluniau gwarantu eu cynnig i chi/eich busnes er mwyn i chi ymuno neu gynnal eich aelodaeth?**

*Maint y sampl = 20*




Mae Ffigur 16 yn siart sy'n dangos pa fanteision y mae angen i gynlluniau sicrwydd eu cynnig, ym marn yr ymatebwyr, er mwyn iddynt ymuno neu barhau â’u haelodaeth.


O fewn y fasnach, enw da’r brand a'r gallu i ddangos ymrwymiadau amgylcheddol yw'r ddau ffactor pwysicaf yn y penderfyniad i ymwneud â chynlluniau sicrwydd.

Dim ond 11 o ymatebwyr a roddodd drafodaeth ychwanegol ar fanteision cymryd rhan mewn cynlluniau sicrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dilyn yr arferion gorau a'r dilysrwydd sy'n deillio o hynny
- Cael diweddariadau am blâu a chlefydau
- Gallu bodloni gofynion y cwsmer

**Ffigur 17: Beth yw'r rhwystrau rhag twf cynhyrchu domestig?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 17 yn siart sy'n dangos beth ym marn yr ymatebwyr yw'r rhwystrau sy'n atal twf mewn cynhyrchu domestig ar sail y rhai a ddewiswyd fel tri opsiwn uchaf yr ymatebwyr.

Rôl cynhyrchu domestig wrth wella bioddiogelwch y Deyrnas Unedig oedd un o'r materion a godwyd amlaf yn yr ymgynghoriad, gydag ystod eang o safbwyntiau yn amrywio o geisio diddymu mewnforion yn gyfan gwbl i bwysleisio bod natur fyd-eang y systemau presennol yn golygu y gallai ffocws ar gynhyrchu domestig fod yn rhy gul i gyflawni'r nodau bioddiogelwch sydd wedi'u datgan.

Nododd yr ymatebwyr mai cystadleuaeth gan gyflenwyr tramor (19 y cant) oedd y rhwystr allweddol ac wedyn materion llafur (16 y cant) ac anhawster i rag-weld y galw (15 y cant).

Soniodd llawer o'r sylwadau, yn enwedig o fewn y fasnach, am thema ansicrwydd parhaus ynghylch y galw yn y dyfodol, gan nodi bod y graddfeydd amser aml-flwyddyn sy'n gysylltiedig â phatrymau cynhyrchu newidiol, yn ogystal â baich risg newidiadau posibl yn y rheolau ynglŷn â mewnforion, yn ffactorau arwyddocaol o ran cyfyngu ar fuddsoddiadau yn y sector (yn enwedig lle mae costau ymlaen llaw yn parhau'n uchel ac argaeledd staff wedi'u hyfforddi yn gyfyngedig). Amlygwyd strwythur proses y grant plannu coed presennol, gyda'i gyfyngiad o ddwy flynedd ar weithredu, fel cyfyngiad o ran amcangyfrif y galw yn y tymor hir. Ar y llaw arall, nid oedd argaeledd technoleg a denu newydd-ddyfodiaid i'r sector yn cael eu cyfrif yn rhwystrau cryf i atal cynhyrchu domestig.

**Tabl 5: Beth yw'r rhwystrau rhag twf cynhyrchu domestig? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Rhwystr | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Cystadleuaeth gan gyflenwyr tramor** | 15 | 31 | 18 | 17 | 30 |
| **Anhawster dod o hyd i lafur parhaol a thymhorol** | 4 | 15 | 18 | 22 | 35 |
| **Diffyg gwybodaeth i gyflenwyr allu rhagweld galw yn y dyfodol** | 2 | 23 | 20 | 13 | 30 |
| **Gorbenion cynhyrchu** | - | 15 | 15 | 13 | 20 |
| **Problemau mynediad i'r farchnad ar gyfer cynnyrch domestig** | 8 | 8 | 2 | 4 | 25 |
| **Cyllid ac adnoddau ar gael i roi technoleg ac arloesi newydd ar waith** | 6 | - | 18 | 4 | - |
| **Barn defnyddwyr e.e. pris, ystod, ansawdd** | 6 | 8 | 2 | 9 | 10 |
| **Denu newydd-ddyfodiaid i'r sector.** | - | 15 | 2 | 9 | 10 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argaeledd arloesi a thechnoleg** | - | - | 5 | - | 10 |

Mae Tabl 5 yn dangos beth ym marn yr ymatebwyr yw'r rhwystrau sy’n atal twf cynhyrchu domestig ar sail y rhai a ddewiswyd fel y tri opsiwn uchaf, wedi’u hagregu’n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o’r fasnach yn canolbwyntio ar y pryderon ynghylch cystadleuaeth, argaeledd llafur a rhag-weld y galw. Tynnodd tirfeddianwyr a rheolwyr tir sylw hefyd at gystadleuaeth a rhag-weld y galw fel rhwystrau allweddol tra oedd dod o hyd i lafur yn rhwystr ym marn y grŵp ymchwil ac addysg.

**Ffigur 18: O’r opsiynau isod, pa rai fyddai fwyaf effeithiol o ran mynd i’r afael â’r prif rwystrau rhag cynhyrchu domestig rydych chi wedi'u nodi?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 18 yn siart sy'n dangos beth, ym marn yr ymatebwyr, fyddai'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r prif rwystrau sy’n atal cynhyrchu domestig ar sail tri phrif ymateb yr ymatebwyr.

Bernid mai gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu'r galw oedd y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â rhwystrau sy’n atal cynhyrchu domestig (20 y cant) ochr yn ochr â'r cyflenwad llafur (15 y cant) ac ymchwil a datblygu (15 y cant).

**Tabl 6: O’r opsiynau isod, pa rai fyddai fwyaf effeithiol o ran mynd i’r afael â’r prif rwystrau rhag cynhyrchu domestig rydych chi wedi'u nodi? Fesul grŵp bras.**

| Modd mynd i'r afael â rhwystrau | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu’r galw am gynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu’n ddomestig** | 15 | 23 | 20 | 13 | 40 |
| **Sicrhau argaeledd llafur digonol** | 4 | 8 | 15 | 22 | 40 |
| **Ymchwil a datblygu sy’n canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchu domestig** | 8 | 15 | 20 | 17 | 15 |
| **Defnyddio mwy o ddulliau awtomeiddio er mwyn lleihau dibyniaeth ar ofynion llafur** | 4 | 15 | 10 | 9 | 25 |
| **Systemau rhaghysbysu i helpu cyflenwyr a thyfwyr i ragweld y galw** | - | 31 | 15 | 9 | 10 |
| **Sefydlu modelau cydweithredol e.e. cyrff cynhyrchwyr** | 4 | 8 | 2 | 13 | 15 |
| **Canfod cyfleoedd ar gyfer twf mewn marchnadoedd allforio** | 4 | | 2 | 4 | 20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio dulliau arloesi a thechnoleg** | 4 | - | 5 | 9 | 10 |

Mae Tabl 6 yn dangos beth fyddai'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r prif rwystrau sy’n atal cynhyrchu domestig ar sail tri phrif ymateb yr ymatebwyr, wedi’u hagregu’n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Yr opsiwn a gymeradwywyd amlaf, yn enwedig o fewn y fasnach, oedd hybu’r galw am gynhyrchu domestig. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu ynghylch y ffordd orau o gyflawni hyn, ai drwy reoli galw'r Deyrnas Unedig yn well ynteu drwy godi mwy o rwystrau i atal mewnforion. Roedd y sectorau masnach ac ymchwil o’r farn bod sicrhau bod llafur ar gael (yn enwedig llafur graddedigion medrus) yn effeithiol, ochr yn ochr ag ystyriaethau ymchwil a datblygu. Pwysleisiai’r tirfeddianwyr y rôl y gallai systemau rhaghysbysu ei chwarae wrth ragfynegi’r galw, er bod y fasnach o’r farn bod hyn yn llai effeithiol. Yn gyffredinol, bernid bod mynediad i farchnadoedd allforio yn bryder isel (yn enwedig y tu allan i'r fasnach) gyda sylwadau'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar sefyllfa fewnol y Deyrnas Unedig.

Teimlai rhai ymatebwyr fod pryderon ynglŷn â bioddiogelwch yn golygu bod angen lleihau mewnforion, gyda chynnydd o ganlyniad i hynny mewn cynhyrchu domestig, tra soniodd eraill am yr heriau y byddai dull gweithredu o'r fath yn eu hwynebu, fel isod:

*"Mae cynhyrchu domestig yn golygu [...] costau cynhyrchu uwch wrth ailddatblygu busnesau. [...] Mae lle yn brin ac mae cyfleusterau newydd yn costio arian, yn gofyn staff ac yn newid logisteg [...] Gallai consortia o dyfwyr mawr yn cydweithio bontio'r bwlch hwnnw ar yr amod y bydd y defnyddiwr yn talu'r premiwm y mae cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig yn gofyn amdano".*

O ran cyfleoedd eraill i gynyddu cynhyrchiant domestig, rhoddodd 50 o ymatebwyr awgrymiadau. Roedd y rhain yn cynnwys gwell labelu ac ymwybyddiaeth o fanteision prynu nwyddau a dyfir yn y Deyrnas Unedig, hwyluso mynediad i'r sector meithrinfeydd, cynnwys gofynion uwch ynglŷn â bioddiogelwch mewn grantiau a dulliau caffael mewnol, mwy o reoleiddio ar fewnforion, cymorth ar gyfer cyfnodau pontio cynaliadwy yn y diwydiant (e.e. ynni adnewyddadwy, symud i ddeunyddiau di-fawn etc), llai o gost archwilio/cydymffurfio (yn enwedig i fusnesau llai neu newydd-ddyfodiaid), ac yn olaf, ariannu ymchwil a datblygu, yn ogystal â llwybrau hyfforddi.


# Canlyniad 4: Gallu technegol gwell

## Pa ganran o wariant ymchwil y llywodraeth a ddylai ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn ymchwil hirdymor strategol?

Datgelodd y blaenoriaethau ar gyfer cyllid ymchwil y byddai'n well gan yr ymatebwyr weld ymchwil hirdymor strategol na dulliau adweithiol, gyda'r mwyafrif yn ateb yn yr ystod o ymrwymo 50 y cant i 70 y cant o’r cyllid tuag at amcanion ymchwil y tymor hirach.

**Ffigur 19: Er mwyn aros ar flaen y gad o ran bioddiogelwch, pa feysydd y dylai Prydain ganolbwyntio eu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu arnynt dros y pum mlynedd nesaf?**

*Maint y sampl = 144*




Mae Ffigur 19 yn siart sy'n dangos ym mha feysydd y mae’r ymatebwyr yn teimlo y dylai Prydain Fawr ganolbwyntio’i buddsoddiad ymchwil a datblygu dros y pum mlynedd nesaf ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr.

Nodir mai archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth (33 y cant) yw’r categori sydd â'r pwysigrwydd cyffredinol mwyaf ymhlith yr ymatebwyr.

**Tabl 7: Er mwyn aros ar flaen y gad o ran bioddiogelwch, pa feysydd y dylai Prydain ganolbwyntio eu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu arnynt dros y pum mlynedd nesaf? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Ffocws ymchwil a datblygu | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth** | 27 | 31 | 25 | 56 | 35 |
| **Asesu risg a sganio'r gorwel** | 8 | 8 | 20 | 17 | 30 |
| **Plannu a rheoli i sicrhau cydnerthedd** | 19 | 15 | 5 | 9 | 15 |
| **Rheoli plâu a chlefydau** | 15 | 8 | 18 | 4 | 5 |
| **Cyfrifoldebau a gweithredoedd rhanddeiliaid** | 17 | 15 | 8 | - | - |
| **Ymwrthedd a goddefiant** | 4 | 15 | 10 | 9 | 5 |

Mae Tabl 7 yn dangos ym mha feysydd y mae'r ymatebwyr yn teimlo y dylai Prydain Fawr ganolbwyntio'i buddsoddiad ymchwil a datblygu dros y pum mlynedd nesaf, ar sail y ddau brif ddewis wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Cafodd pwysigrwydd archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth ar gyfer buddsoddi ei nodi gan bob grŵp. Nodwyd bod asesu risg a sganio'r gorwel yn bwysig gan y grŵp masnach, ymchwil ac addysg a chyrff anllywodraethol/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill tra soniodd y cyhoedd a grwpiau tirfeddianwyr am blannu a rheoli i sicrhau cydnerthedd.

**Tabl 8: Pynciau blaenoriaeth ar gyfer ymchwil**

| Thema | Is-bynciau |
| --- | --- |
| **Asesu risg a sganio'r gorwel** | Modelu bygythiadau sy'n dod i'r amlwg |
| | Asesu risgiau i'r fasnach |
| | Rhagfynegi effeithiau |
| | Ymwrthedd naturiol |
| | Effaith colli bioamrywiaeth |
| | Mesurau rheoli |
| | Mathau o drosglwyddo |
| **Archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth** | Cyfraddau ac effeithiolrwydd archwiliadau |
| | Technolegau newydd |
| | Diagnosteg gyflym |
| | Mathau o drosglwyddo |
| | Ymddygiad unigolion |
| | Cost-effeithiolrwydd |
| | Gwyddoniaeth dinasyddion |
| | Rhoi'r ymchwil bresennol ar waith |
| **Rheoli plâu a chlefydau** | Arferion gorau a lliniaru |
| | Mesurau rheoli |
| | Mathau o drosglwyddo |
| | Mynediad at wybodaeth a chymorth |

| | |
|---|---|
| **Ymwrthedd a goddefiant** | Ymwrthedd presennol |
| | Golygu genynnau |
| | Cydnerthedd yr amgylchedd |
| | Mynediad at wybodaeth a chymorth |
| **Plannu a rheoli i sicrhau cydnerthedd** | Adfywio naturiol |
| | Dewis rhywogaethau |
| | Cydnerthedd yr amgylchedd |
| | Strategaethau adnewyddu |
| | Effaith colli bioamrywiaeth |
| | Mynediad at wybodaeth a chymorth |
| **Cyfrifoldebau a gweithredoedd rhanddeiliaid** | Ymddygiad unigolion |
| | Cydweithredu yn y diwydiant |
| | Archwiliadau cost-effeithiol |
| | Effaith polisïau |
| | Dadansoddi cadwyni cyflenwi |

Mae Tabl 8 yn dangos yr is-bynciau a ddewiswyd gan yr ymatebwyr fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

## Dysgu oddi wrth sectorau eraill

Rhoddodd 50 (o'r cyfanswm o 144) o ymatebwyr awgrymiadau ar weithgareddau mewn sectorau eraill a allai gynnig gwersi i’w rhannu. Nododd ambell ymatebydd gyfatebiaeth ag iechyd y cyhoedd ac epidemioleg, gan gynnwys canolbwyntio ar atal, ac roedd y sectorau eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys iechyd anifeiliaid, modelu tywydd a chyfathrebu.

Roedd y datblygiadau penodol a grybwyllwyd dro ar ôl tro yn cynnwys ehangu posibl yn y defnydd o synhwyro o bell a deallusrwydd artiffisial.

### Technolegau newydd

Rhoddodd 68 (o'r cyfanswm o 144) o ymatebwyr fanylion pellach ar sut y gall y llywodraeth gefnogi ymchwil a datblygu, gan gynnwys o ran technolegau newydd. Yn gyffredinol, canolbwyntiwyd ar ariannu ymchwil, buddsoddi a chydweithredu effeithiol.

Er enghraifft:

*"Drwy gefnogi ymgysylltiad parhaus rhwng y sectorau gwyddonol a thechnolegol a'r rhai ar lawr gwlad (a'u cyrff cynrychioliadol) a allai roi technolegau penodol ar waith pan fydd modd i'r rheiny gael eu defnyddio. Gall erthyglau yn y wasg gyffredinol a'r wasg fasnach am ddibenion posibl, seminarau a gweminarau etc helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion/technegau ac ennyn cefnogaeth i wneud eu defnydd yn y pen draw yn haws."*

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr mai'r gost oedd y rhwystr mwyaf a allai atal technolegau newydd rhag cael eu hymgorffori. Cyfeirid yn aml hefyd at anwybodaeth neu atal bwriadol, ac at broblemau gyda niferoedd staff cymwysedig yr arolygiaeth iechyd planhigion.

### Partneriaid cydweithredol

Cynigiodd 66 (o'r cyfanswm o 144) o'r ymatebwyr ffyrdd o ehangu capasiti ymchwil, gydag amrywiaeth mawr o ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Prifysgolion a sefydliadau ymchwil
- Meithrinfeydd a phartneriaid yn y diwydiant
- Gwledydd tramor sydd â pholisïau bioddiogelwch effeithiol
- Grwpiau lleol a gwirfoddol, gwyddonwyr o ddinasyddion

## Mesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer coed risg uchel

Nod y cwestiynau yn yr adran hon oedd sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o farn y rhanddeiliaid ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â risgiau penodol o goed a bwydo'r syniadau polisi ynghylch mesurau diogelwch cyn cyrraedd y ffin, ar y ffin ac yn fewndirol wedi'u targedu'n benodol at y materion hyn.

#### Nodyn cyffredinol ar ddehongli


Fel y nodwyd uchod (gweler y trosolwg o'r ymatebion) roedd cwestiynau ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer mewnforio coed risg uchel yn atodiad dewisol i'r ymgynghoriad gwreiddiol. O ganlyniad, mae'r canfyddiadau a'r gwerthoedd canrannol yn yr adran hon wedi'u seilio ar y 125 o ymatebwyr a atebodd o leiaf un o'r cwestiynau yn yr

atodiad i'r arolwg gwreiddiol. Roedd demograffeg fras y rhai a roddodd atebion i'r atodiad yn debyg iawn i ddemograffeg gyffredinol yr ymatebwyr ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl brif grwpiau buddiant.

## Ymwybyddiaeth ac effeithiolrwydd y mesurau presennol

**Ffigur 20: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel?**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 20 yn siart sy'n dangos pa mor ymwybodol yw'r ymatebwyr o'r mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel.

Nododd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr (46 y cant) eu bod yn ymwybodol iawn neu'n ymwybodol o'r mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel.

**Tabl 9: Pa mor ymwybodol ydych chi o'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Lefel ymwybyddiaeth | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Ymwybodol iawn** | 2 | 8 | 22 | 5 | 11 |
| **Ymwybodol** | 12 | 39 | 41 | 57 | 56 |
| **Ymwybodol i raddau** | 39 | 31 | 25 | 24 | 22 |
| **Ddim yn ymwybodol o gwbl** | 44 | 23 | 9 | 5 | 6 |
| **Heb ateb** | 2 | - | 3 | 10 | 6 |

Mae Tabl 9 yn dangos pa mor ymwybodol yw'r ymatebwyr o'r mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel, wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Dangosodd ymatebion y cyhoedd nad oedden nhw ond yn ymwybodol i raddau o fesurau, ar y gorau, tra dywedodd y mwyafrif o'r gweithwyr proffesiynol eu bod yn ymwybodol o'r mesurau presennol gyda chyfran uchel o'r cyrff anllywodraethol/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill a'r grwpiau masnach yn dweud eu bod yn ymwybodol iawn o'r mesurau presennol.


Dadleuai llawer o'r ymatebion ar y pwnc hwn fod terfynau'r mesurau presennol yn amlwg, boed hynny am eu bod yn annigonol neu am nad oedd llawer yn cadw atyn nhw. Cafwyd rhai eithriadau.

Fel y dywedodd un ymatebydd:

*"Mae buddsoddiad presennol Defra yn y gwasanaeth archwilio iechyd planhigion wedi cynyddu'n sylweddol gyda mwy o draed ar y llawr ac mae'r gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi i'n busnes ni yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr."*

**Ffigur 21: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel?**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 21 yn siart sy'n dangos pa mor fodlon yw'r ymatebwyr ar effeithiolrwydd y mesurau bioddiogelwch presennol ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel.

Dywedodd ychydig o dan chwarter (24 y cant) yr ymatebwyr eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon ar effeithiolrwydd y mesurau bioddiogelwch presennol a oedd ar waith ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel, ond nid atebodd chwarter arall a dywedodd 5 y cant o'r ymatebwyr nad oedd y cwestiwn yn gymwys iddynt.

**Tabl 10: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel? Fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Lefel boddhad | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Bodlon iawn** | - | 8 | - | - | 6 |
| **Bodlon** | 15 | 23 | 16 | 29 | 39 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweddol fodlon** | 24 | 23 | 28 | 29 | 28 |
| **Ddim yn fodlon o gwbl** | 20 | 31 | 31 | 10 | 11 |
| **Heb ateb/Ddim yn berthnasol** | 42 | 15 | 25 | 33 | 17 |


Mae Tabl 10 yn dangos pa mor fodlon yw'r ymatebwyr ar effeithiolrwydd y mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar gyfer mewnforio rhywogaethau coed risg uchel, wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Roedd y boddhad ar y mesurau presennol yn tueddu i adlewyrchu ymwybyddiaeth, er bod cyfran lawer mwy o'r ymatebwyr (30 y cant) heb roi unrhyw ymateb y gellir ei ddehongli. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebwyr yn y fasnach y cyfraddau boddhad cyffredinol mwyaf, tra oedd anfodlonrwydd yn fwyaf cyffredin ymhlith y cyrff anllywodraethol/ elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill a'r grŵp tirfeddianwyr neu reolwyr tir.

Pan ofynnwyd iddynt ddarparu mwy o fanylion, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at bryderon ynghylch gwelededd a graddfa'r systemau presennol, yn ogystal â'r dystiolaeth o achosion o blâu hanesyddol fel methiannau systemig yn y broses bresennol.

**Ffigur 22: Pa ffactorau ydych chi'n poeni fwyaf amdanynt o ran mewnforio coed risg uchel?**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 22 yn siart sy'n dangos y prif bryderon ynghylch mewnforio rhywogaethau coed risg uchel ar sail dau ddewis uchaf yr ymatebwyr.

Y pryderon mwyaf a nodwyd gan yr ymatebwyr ynghylch mewnforio coed risg uchel oedd cadernid y gwaith archwilio wrth i'r coed gyrraedd y wlad (68 y cant) a chadernid y dulliau gwyliadwriaeth yn y gwledydd sy'n allforio (62 y cant).

**Tabl 11: Pa ffactorau ydych chi'n poeni fwyaf amdanynt o ran mewnforio coed risg uchel? (wedi'u mynegi fel canran)**

| Pryderon | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| Pa mor gadarn yw'r archwiliadau wrth gyrraedd y wlad | 73 | 85 | 75 | 52 | 50 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor gadarn yw'r dulliau gwyliadwriaeth yn y wlad sy'n allforio** | **63** | **69** | **72** | **43** | **56** |
| **Pa mor gadarn yw'r cydymffurfiad â'r gofynion cyn allforio a bennwyd** | **66** | **77** | **59** | **29** | **56** |
| **Coed mawr yn cael eu mewnforio'n uniongyrchol i safleoedd plannu** | **56** | **85** | **56** | **29** | **72** |
| **Risgiau o ran plâu ac afiechydon anhysbys** | **56** | **54** | **62** | **48** | **61** |
| **Diffyg arweiniad ynghylch risgiau** | **49** | **38** | **47** | **19** | **50** |

Mae Tabl 11 yn dangos y prif bryderon ynghylch mewnforio rhywogaethau coed risg uchel ar sail dau safle uchaf yr ymatebwyr ac wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Cadernid y gwaith archwilio wrth i'r coed gyrraedd y wlad hon oedd y prif bryder i bob grŵp, ond nododd y grŵp tirfeddianwyr neu reolwyr tir hefyd fod coed mawr sy'n cael eu mewnforio'n uniongyrchol i safleoedd plannu yn peri'r un lefel o bryder.

Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar gymysgedd o themâu economi, enw da ac amgylchedd gyda llawer o groestoriad gyda'r risg dybiedig fwy cyffredinol i iechyd planhigion. Tueddai aelodau o'r cyhoedd (a chyrff anllywodraethol amgylcheddol), i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau posibl mewnforion sy'n wynebu risg (h.y. sefydlu plâu newydd yn y dirwedd), tra oedd aelodau'r fasnach yn aml yn canolbwyntio'n fwy ar ymarferoldeb a materion sy'n ymwneud â gweithredu'r system bresennol. Soniwyd sawl tro am yr her o ddelio â phlanhigion asymptomatig, gan gynnwys yn arbennig gwesteiwyr y pathogen *Xylella fastidiosa* sy'n dechrau dod i'r amlwg, ynghyd â'r diffyg arweiniad clir ac anawsterau olrhain stoc, yn enwedig stoc wedi'i chyfeirio at y cyhoedd a defnyddwyr eraill ar raddfa fach.

Fel y dywedodd un ymatebydd:

*"Llai o fioamrywiaeth mewn cynlluniau plannu. Risg o fod yn gyfrifol am gaffael sbesimenau heintiedig. Colli hygrededd proffesiynol a safle yn y diwydiant."*

Cynigiodd 21 o’r ymatebwyr awgrymiadau ar sut y dylid targedu mesurau bioddiogelwch ychwanegol ac felly mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

## Asesu mesurau ac awgrymiadau bioddiogelwch arfaethedig ychwanegol

### Cyfyngiadau trafnidiaeth

Cludiant mewn cynwysyddion yn hytrach na cherbyd heb do, cyfyngiadau teithio ar gyfer ardaloedd risg uchel, cludiant yn ystod y tymhorau pan fo’r plâu/clefydau yn fwyaf gweladwy. Ond mae yna risg o ddirywiad yn y planhigion a phrinder gyrwyr ychwanegol os caiff y cludiant ei ohirio.

### Archwiliadau yn y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio

Profion firws, plâu tymhorol, canolbwyntio ar y risgiau mwyaf, cydweithio â gwledydd eraill. Ond byddai'r rhain yn cynyddu’r gorbenion os nad ydynt yn wasanaeth am ddim.

### Rhag-drin neu brofi pob planhigyn sydd i'w blannu

Canolbwyntio ar brofion, yn amodol ar ddibynadwyedd y profion, amhosibl ar bob planhigyn oherwydd eu niferoedd, dylid canolbwyntio ar y risgiau uchaf e.e. Xylella.

### Rhaid tyfu planhigion mewn amodau gwarchodedig

Amhosibl i lawer o gnydau, gellid ymestyn y tymor tyfu i ganiatáu mwy o archwiliadau, efallai yn amhosibl heblaw wrth dyfu o dan wydr neu bolythen.

### Gwahardd mynediad i blanhigion penodol

Rhaniad yn yr ymatebion rhwng cyfyngu mewnforion a chanolbwyntio ar brofion yn lle hynny, fydd hyn ddim yn gweithio gyda’r rheolaeth gyfredol ar y ffin, wedi'i thargedu ar rywogaethau risg uchel fel ynn, yn seiliedig ar sganio'r gorwel.

### Cyfyngiadau llymach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu

Ni ddylid mewnforio unrhyw bridd, gall fod angen gwell adnoddau ar gyfer gorfodi a chosbau am beidio â chydymffurfio, manteision mewn perthynas â phlâu fel OPM sy'n ffafrio coed aeddfed, angen cwarantin.

### Caniatáu mewnforio rhywogaethau o blanhigion sydd ag ymwrthedd yn unig

Anodd ei blismona, cydymffurfio'n anodd gyda'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael/ rhywogaethau presennol, rhywogaethau ag ymwrthedd dal yn gallu trosglwyddo plâu a chlefydau.

**Dim mewnforio coed/planhigion dros faint penodol**

Mae angen i faint fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gallai helpu gyda lle ar gyfer cwarantin, angen archwiliadau digonol i'w gorfodi, byddai'n cyfyngu ar y dewis o goed yn y Deyrnas Unedig ac felly bioamrywiaeth, gellid canolbwyntio ar risg uchel e.e. derw ar gyfer OPM.

**Cynyddu'r drefn archwilio**

Angen iddi fod yn rhad a chyflym, ni ddylai greu oedi cyn dosbarthu ac felly achosi costau ychwanegol, ni ellir dod o hyd i rai plâu a chlefydau hyd yn oed os oes yna harchwiliad.

**Targedu risg mewn archwiliadau mewnforio swyddogol**

Gall fod yn dymhorol, gellid archwilio yn y gyrchfan, llai o faich archwilio i fusnesau sy'n cydymffurfio, canolbwyntio ar risg uchel.

**Cwarantin Absoliwt**

Dylai gael ei gofnodi, gallai lle fod yn anodd, gallai fod yn rhwystr i fasnach, yn llai effeithiol na gwahardd mewnforion swmp, bydd angen archwilio o hyd, pryderon ymarferol gan fod angen gofalu am y planhigion.

**Cadw'r llwyth dan warchodaeth ffisegol**

Amserlen o bythefnos, yn ystod cyfnod cwsg yn unig, yn anaddas ar gyfer llawer o gnydau, yn gofyn am gyfleusterau ledled y Deyrnas Unedig, anymarferol, yn dal i ddibynnu ar archwiliadau.

**Ynysu coed, archwiliadau yn ystod y tymor tyfu cyn eu gwerthu ymlaen**

Costus yn ôl pob tebyg, rhwystro masnach, angen i hyn weithio gyda gwaith profi ac archwilio, pryderon ymarferol.

**Archwiliadau ar ôl plannu**

Yn ystod y tymor tyfu newydd cyntaf, cofnodi arsylwadau, pryderon ymarferol, angen hyfforddi staff, canolbwyntio ar risg uchel, pryderon ymarferol, gallai olygu bod tarddiad plâu a chlefydau yn aneglur.

**Archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu**


Gorfodol ar gyfer risg uchel, yn ystod y tymor tyfu cyntaf, iawndal pe bai'r stoc yn cael ei dinistrio, angen hyfforddiant, pryderon ymarferol, isafswm posibl tra bo mesurau eraill yn cael eu rhoi ar waith, gallai olygu bod tarddiad plâu a chlefydau yn aneglur.

**Cadw cofnodion o safleoedd plannu**

Mae cadwyni cyflenwi cymhleth yn gwneud hyn yn anodd, gellid ei ddefnyddio i wella pasbortau planhigion, byddai angen system gofnodi newydd, efallai na fydd y safle terfynol yn hysbys, gellid canolbwyntio ar risg uchel.

**Ffigur 23: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau ychwanegol cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel?**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 23 yn siart sy'n dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr yw'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel, ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr.

O blith y mesurau ychwanegol a allai gael eu rhoi ar waith cyn y ffin, nodwyd yn gyffredinol mai gwahardd mynediad i blanhigion penodol fyddai'r ymateb mwyaf effeithiol (54 y cant).

**Tabl 12: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau ychwanegol cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel? Y ddau brif fesur effeithiol fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Y mesurau mwyaf effeithiol | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwahardd mynediad i blanhigion penodol** | 49 | 69 | 50 | 52 | 61 |
| **Archwiliadau yn y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio** | 27 | 23 | 41 | 38 | 50 |
| **Rhag-drin neu brofi pob planhigyn sydd i'w blannu** | 27 | 31 | 38 | 48 | 28 |
| **Rhaid tyfu planhigion mewn amodau gwarchodedig** | 27 | 31 | 38 | 38 | 22 |
| **Cyfyngiadau trafnidiaeth** | 29 | 23 | 28 | 29 | 28 |

Mae Tabl 12 yn dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr yw'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr ac wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Gwahardd mynediad i blanhigion penodol oedd y mesur a gâi ei ffafrio fwyaf gan bob un o'r grwpiau, yn enwedig y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir a'r grwpiau masnach. Dangosodd ymatebwyr o'r fasnach rywfaint o gefnogaeth hefyd i archwiliadau yn ystod y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio er bod grwpiau eraill o'r farn bod hyn yn llai pwysig.

**Tabl 13: Pa mor hawdd y gallech chi neu eich busnes weithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesur? Y ddau fesur mwyaf ymarferol fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**


| Y mesurau mwyaf ymarferol | Y cyhoedd | Tirfeddianwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwahardd mynediad i blanhigion penodol** | 7 | 31 | 12 | 10 | 39 |
| **Archwiliadau yn y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio** | 7 | 23 | 9 | 14 | 17 |
| **Rhag-drin neu brofi pob planhigyn sydd i'w blannu** | 5 | 15 | 12 | 10 | 17 |
| **Rhaid tyfu planhigion mewn amodau gwarchodedig** | 5 | 15 | 3 | 10 | 6 |
| **Cyfyngiadau trafnidiaeth** | 2 | 8 | 3 | 14 | 6 |

Mae Tabl 13 yn dangos pa mor ymarferol, ym marn yr ymatebwyr, fyddai gweithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir cyn cyrraedd y ffin ar sail dau brif fesur mwyaf ymarferol yr ymatebwyr ac wedi'u hagregu’n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

O ran ymarferoldeb, roedd y cyfraddau ymateb yn isel iawn mewn llawer or grwpiau, a'r ymateb mwyaf ymarferol yn gyffredinol oedd gwahardd mewnforio planhigion penodol, yn enwedig ymysg y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir (31 y cant) a’r grwpiau masnach (39 y cant). Er hynny, oherwydd y ffordd y cafodd y cwestiwn ei eirio, sylwch na allwn ni nodi pa ganran o’r ymatebwyr a fethodd â rhoi ateb oedd o’r farn na ddylid gweithredu'r mesur a enwyd.

**Ffigur 24: Os ydych chi'n credu y dylid defnyddio'r mesur ychwanegol cyn cyrraedd y ffin, beth yw'r dull a ffefrir? Mae'r ffigur yn dangos dim ond yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â phob mesur posibl a'r dull gweithredu a ffefrir ganddynt ar gyfer y mesur hwnnw.**





Oherwydd sut y gofynnwyd y cwestiwn, mae maint y sampl yn unigryw ar gyfer pob mesur, gan ddibynnu a oedd yr ymatebydd o'r farn y dylid cymhwyso'r mesur ai peidio. O'r 125 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad, mae Ffigur 24 uchod yn dangos y rhai a gytunodd (1) y dylid cymhwyso'r mesur a (2) bod ganddyn nhw farn ar y dull gweithredu a ffefrir, sef naill ai gwirfoddol ynteu gorfodol.

Gwahardd mynediad i blanhigion penodol oedd y mesur ychwanegol cyn cyrraedd y ffin mwyaf ffafriol (68 o ymatebwyr), gyda 94 y cant yn ffafrio ei gyflwyno fel mesur gorfodol.

**Ffigur 25: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau ychwanegol cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel?**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 25 yn siart sy'n dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr yw'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel, ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr.

Bernid mai cyfyngiadau tynnach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu oedd un o'r ddau fesur ychwanegol mwyaf effeithiol gan 49 y cant o'r ymatebwyr ac wedyn cynyddu'r drefn archwilio (43 y cant).

**Tabl 14: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau ychwanegol cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel? Y ddau fesur mwyaf effeithiol fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Y mesurau mwyaf effeithiol | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau llymach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu** | 46 | 54 | 47 | 57 | 44 |
| **Cynyddu'r drefn archwilio** | 44 | 46 | 44 | 43 | 39 |
| **Dim mewnforio coed/planhigion dros faint penodol** | 32 | 23 | 25 | 48 | 44 |
| **Targedu risg mewn archwiliadau mewnforio swyddogol** | 27 | 46 | 34 | 24 | 28 |
| **Caniatáu mewnforio rhywogaethau o blanhigion sydd ag ymwrthedd yn unig** | 44 | 38 | 22 | 24 | 17 |

Mae Tabl 14 yn dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr yw'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir cyn cyrraedd y ffin o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel, ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr, ac wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Roedd pob grŵp o'r farn mai'r mesur ychwanegol o gefnogaeth i gyfyngiadau tynnach ar fewnforio coed mawr â phridd a chyfrwng tyfu oedd fwyaf effeithiol gyda 44 i 57 y cant o'r ymatebion.


**Tabl 15: Pa mor hawdd y gallech chi neu eich busnes weithredu, cyflawni a chydymffurfio â’r mesur? Y ddau fesur mwyaf ymarferol fesul grŵp bras (wedi’u mynegi fel canran).**

| Y mesurau mwyaf ymarferol | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Cyfyngiadau llymach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu** | 7 | 31 | 16 | - | 33 |
| **Cynyddu’r drefn archwilio** | 2 | 15 | 22 | 14 | 22 |
| **Dim mewnforio coed/planhigion dros faint penodol** | 2 | 8 | 16 | 5 | 39 |
| **Targedu risg mewn archwiliadau mewnforio swyddogol** | 2 | 15 | 16 | 5 | 17 |
| **Caniatáu mewnforio rhywogaethau o blanhigion sydd ag ymwrthedd yn unig** | 5 | 23 | 6 | 10 | 17 |

Mae Tabl 15 yn dangos pa mor ymarferol ym marn yr ymatebwyr fyddai gweithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol a awgrymir ar y ffin ar sail y ddau fesur mwyaf ymarferol ym marn yr ymatebwyr, wedi’u hagregu’n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

O ran ymarferoldeb, nododd y grŵp masnach yn gyffredinol mai cyfyngiadau ar goed mawr a/neu blanhigion o faint penodol oedd fwyaf tebygol o fod yn ymarferol (39 y cant).

**Ffigur 26: Os ydych chi’n credu y dylid defnyddio'r mesur ychwanegol ar y ffin, beth yw'r dull a ffefrir? Mae'r ffigur yn dangos dim ond yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â phob mesur posibl a'r dull gweithredu a ffefrir ganddynt ar gyfer y mesur hwnnw.**





Oherwydd sut y gofynnwyd y cwestiwn, mae maint y sampl yn unigryw ar gyfer pob mesur, gan ddibynnu a oedd yr ymatebydd o'r farn y dylid cymhwyso'r mesur ai peidio. O'r 125 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad, mae Ffigur 26 yn dangos y rhai a gytunodd (1) y dylid cymhwyso'r mesur a (2) bod ganddyn nhw farn ar y dull gweithredu a ffefrir, sef naill ai gwirfoddol ynteu gorfodol.

Cynyddu'r drefn archwilio oedd y mesur ychwanegol ar y ffin mwyaf ffafriol, gydag 81 y cant yn ffafrio ei gyflwyno fel mesur gorfodol. Er hynny, dylid nodi bod nifer yr ymatebwyr yn debyg ar gyfer pob un o'r pum mesur.

**Ffigur 27: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau mewndirol ychwanegol o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel.**

*Maint y sampl = 125*




Mae Ffigur 27 yn siart sy'n dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr fyddai'r mesurau bioddiogelwch mewndirol ychwanegol a awgrymir o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr.

Cwarantin absoliwt a osodwyd fel y mesur mwyaf effeithiol (39 y cant) ac archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu oedd y mesur lleiaf effeithiol (16 y cant).

**Tabl 16: Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesurau mewndirol ychwanegol o ran gwella bioddiogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel? Y ddau fesur mwyaf effeithiol fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Y mesurau mwyaf effeithiol | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwarantin ar ôl mynediad – Cwarantîn Absoliwt** | 29 | 62 | 41 | 52 | 28 |
| **Cwarantin ar ôl mynediad – Cadw'r llwyth dan warchodaeth ffisegol** | 34 | 46 | 38 | 33 | 11 |
| **Cwarantîn ar ôl mynediad – Ynysu coed, archwiliadau yn ystod y tymor tyfu cyn eu gwerthu ymlaen** | 39 | 31 | 34 | 24 | 22 |
| **Cadw cofnodion o safleoedd plannu** | 24 | 23 | 41 | 24 | 44 |
| **Archwiliadau ar ôl plannu** | 22 | 31 | 31 | 24 | 17 |
| **Archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu** | 15 | 8 | 22 | 14 | 17 |

Mae Tabl 16 yn dangos pa mor effeithiol ym marn yr ymatebwyr fyddai'r mesurau bioddiogelwch mewndirol ychwanegol a awgrymir o ran gwella bioddiogelwch Prydain Fawr ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel ar sail dau brif ddewis yr ymatebwyr ac wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Amlygodd ymatebion y grŵp masnach mai cadw cofnodion ar gyfer safleoedd plannu oedd y mesur mewndirol mwyaf effeithiol (44 y cant) tra oedd y grŵp tirfeddianwyr a rheolwyr tir a'r grŵp ymchwil ac addysg ill dau yn ffafrio cwarantin absoliwt (62 a 52 y cant yn y drefn honno).


**Tabl 17: Pa mor hawdd y gallech chi neu eich busnes weithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesur mewndirol ychwanegol? Y ddau fesur mwyaf ymarferol fesul grŵp bras (wedi'u mynegi fel canran).**

| Y mesurau mwyaf effeithiol | Y cyhoedd | Tirfeddiannwr neu reolwr tir | NGOs/elusennau/gweithwyr proffesiynol eraill | Ymchwil ac addysg | Y fasnach |
|---|---|---|---|---|---|
| | *sampl: 48* | *sampl: 13* | *sampl: 40* | *sampl: 23* | *sampl: 20* |
| **Cwarantin ar ôl mynediad – Cwarantîn Absoliwt** | 2 | 15 | 9 | 14 | 11 |
| **Cwarantin ar ôl mynediad – Cadw'r llwyth dan warchodaeth ffisegol** | 5 | 15 | 16 | 14 | 17 |
| **Cwarantîn ar ôl mynediad – Ynysu coed, archwiliadau yn ystod y tymor tyfu cyn eu gwerthu ymlaen** | 5 | 15 | 16 | 10 | 22 |
| **Cadw cofnodion o safleoedd plannu** | 2 | 46 | 22 | 5 | 33 |
| **Archwiliadau ar ôl plannu** | 2 | 31 | 16 | 10 | 17 |
| **Archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu** | - | 46 | 12 | 5 | 17 |

Mae Tabl 17 yn dangos pa mor ymarferol ym marn yr ymatebwyr fyddai gweithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch mewndirol ychwanegol a awgrymir ar sail y ddau fesur mwyaf ymarferol ym marn yr ymatebwyr, wedi'u hagregu'n grwpiau ehangach ar sail rôl yr ymatebwyr ym maes iechyd planhigion.

Bernid bod cadw cofnodion o safleoedd plannu ac archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu yn ddau o'r mesurau mwyaf ymarferol ymysg y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir (46 y cant ar gyfer pob un). Roedd y fasnach (33 y cant) a chyrff anllywodraethol/gweithwyr proffesiynol eraill (22 y cant) hefyd o'r farn mai cadw cofnodion oedd fwyaf ymarferol.

**Ffigur 28: Os ydych chi'n credu y dylid defnyddio'r mesur mewndirol ychwanegol, beth yw'r dull a ffefrir? Mae'r ffigur yn dangos dim ond yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â phob mesur posibl a'r dull gweithredu a ffefrir ganddynt ar gyfer y mesur hwnnw.**




Oherwydd sut y gofynnwyd y cwestiwn, mae maint y sampl yn unigryw ar gyfer pob mesur, gan ddibynnu a oedd yr ymatebydd o'r farn y dylid cymhwyso'r mesur ai peidio. O'r 125 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad, mae'r ffigur uchod yn dangos y rhai a gytunodd (1) y dylid cymhwyso'r mesur a (2) bod ganddyn nhw farn ar y dull gweithredu a ffefrir, sef naill ai gwirfoddol ynteu gorfodol.

Cadw cofnodion ar gyfer safleoedd plannu oedd y mesur mewndirol ychwanegol mwyaf ffafriol, gydag 86 y cant yn ffafrio ei gyflwyno fel mesur gorfodol. Dilynwyd hyn gan gadw'r llwyth o dan warchodaeth ffisegol ac archwiliadau ar ôl plannu, yr oedd 66 o'r ymatebwyr o'r farn y dylid defnyddio'r naill a'r llall.